



COVID-19 – Amddiffyn - Cyngor i Fusnesau

9 Ebrill 2020

Cyflwyniad

Diben y nodyn cyngor hwn ydi sicrhau cysondeb ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (GTAau), wrth ddarparu cyfarwyddyd i fusnesau yn ystod y pandemig COVID-19. O'r herwydd, dylid defnyddio'r cyfarwyddyd hwn yn ystod y sefyllfa bresennol yn unig ac wedi hynny dylid ei ddiystyru. Mae'n cynnwys negeseuon penodol a meysydd i'w hystyried y gellir eu defnyddio i ychwanegu at y gwaith a gyflawnir eisoes ledled y GTA yn y DU¹.

Rheidrwydd i adolygu Asesiadau Risgiau Tân

Mae nifer o fusnesau, pa un ai a ydynt yn dal i fod ar agor ai peidio, wedi gweld newidiadau o ran risgiau. Ym mhob achos, fe ddylai busnesau fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn ac adolygu eu Hasesiadau Risgiau Tân yn briodol, i wneud yn siŵr eu bod yn addas a digonol. Dylid atgoffa Pobl â Chyfrifoldeb i gael cyngor gan aseswr risgiau tân cymwys bob amser os oes ganddynt unrhyw amheuaeth.

Peth doeth fyddai cynghori'r Person Cyfrifol hefyd i ymgynghori â'u hyswiriwr wrth asesu a lliniaru'r risgiau. Dylid nodi nad ydi yswirwyr yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (RR(FS)O 2005), erys y cyfrifoldeb hwn â'r GTA.

Safleoedd sydd ar gau

Er bod nifer o fusnesau ar gau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y cyfyngiadau symud, mae'n bwysig ystyried y canlynol:

- Y risg o losgi bwriadol - Mae'n bwysig diogelu safleoedd i leihau'r risg o losgi bwriadol. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar ffynonellau tanwydd neu danio allanol a allai achosi lledaeniad tân. Sicrhau bod giatiau a ffensys wedi eu cau a'u cloi yn ogystal â gosod system CCTV, systemau diogelwch a goleuadau allanol gweithredol i helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a all arwain at losgi bwriadol.
- Diangfeydd a Rennir - Sicrhau nad ydy diangfeydd o safleoedd eraill sydd yn dal i fod ar agor neu adeiladau preswyl yn cael eu heffeithio o ganlyniad i ddiogelu'r safle ac nad ydy hynny yn effeithio ar hawliau tramwy ychwaith.
- Cynnal Mesurau Diogelwch Tân -
 - » Dylid sicrhau bod mesurau mewnol i amddiffyn rhag tân, megis drysau tân, yn cael eu cadw ar gau ac mewn cyflwr da gan eu bod yn hanfodol mewn achos o dân.
 - » Dylid parhau i gynnal a chadw a phrofi systemau synhwyrdd a systemau larwm tân os yn bosibl ac os ydi hi'n ddiogel gwneud hynny. Dylid blaenoriaethu hyn yn ôl y risgiau a nodwyd gan y Person Cyfrifol a Chontractwyr e.e. tân yn y siop, nawr ar gau,

¹ Diben y cyfarwyddyd anstatudol hwn ydi darparu cyngor cyffredinol i wasanaethau tân ac achub i sicrhau dull cyson, safonol rhwng gwasanaethau. Nid cyngor cyfreithiol mo'r cyfarwyddyd hwn. Bydd y gwasanaeth tân ac achub yn dal i lynu wrth y dyletswyddau cyfreithiol a nodir yn y ddeddfwriaeth, yn benodol erthygl 26 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, yn ystod y pandemig COVID-19, ond os bydd unrhyw wasanaeth tân ac achub yn gweld bod trafferthion yn codi mewn perthynas â chydymffurfio gyda'r dyletswyddau hynny, fe ddylent geisio cyngor cyfreithiol.

effeithio ar drigolion yn y fflat uwch ben.

- » Enghraifft arall ydi systemau synhwyro a larymau tân a rennir gan safleoedd amrywiol, gyda'r posibilrwydd y bydd rhai ohonynt yn dal i fod ar agor.

Cloriannu'r Risgiau

Mae busnesau sydd yn dal i fod ar agor yn debygol o weld cynnydd yn y galw. Dylid ystyried y canlynol:

- Ydi hi'n hanfodol cynnal neu adolygu Archwiliadau Risgiau Tân os oes newid sylweddol o ran ffyrdd o weithio neu brosesau gwaith. Fe all hyn gynnwys:
 - » Mwy o ddefnyddiau, lle i storio, neu fwy o gynnyrch anorffenedig ar y safle nag arfer.
 - » Rhannau o'r safle ar gau; fe ddylai'r Aseiad Risgiau Tân bennu lefel y risg o ganlyniad i'r newidiadau ac unrhyw fesurau i'w lliniaru e.e. mwy o ddanfoniadau/ casgliadau yn amlach neu ddefnyddio safleoedd eraill i storio.
- Os ydi nifer y staff wedi cynyddu, rhaid i fusnesau wneud yn siŵr eu bod yn dal i ddarparu hyfforddiant staff addas. Caiff hyn ei anwybyddu'n aml pan fydd gweithwyr o'r un cwmni yn symud i weithio i safle arall. Fe ddylai'r Bobl Gyfrifol allu dangos bod yr holl bersonél yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o dân. Fe ddylent hefyd brofi eu gweithdrefnau brys, yn enwedig ar ôl cynnydd mawr yn nifer y staff.
- Mae gostyngiad yn nifer y staff oherwydd bod gweithwyr yn sâl neu'n hunanynysu hefyd yn ddisgwyliedig. Er y bydd nifer yr absenoldebau yn cael eu hategu gan y bobl hynny a fydd yn dychwelyd i'r gwaith, yn y tymor byr fe ddylai busnesau wneud yn siŵr bod eu Hasesiad Risgiau Tân yn adlewyrchu risgiau gostyngiadau o'r fath. Fe all problemau gynnwys nifer annigonol o staff i gyflawni prosesau'n ddiogel, gan gynyddu'r risg o dân. Yn yr un modd, fe all gostyngiad yn nifer y staff olygu nad ydi gweithwyr yn gallu gwagio'r adeilad a chyflawni prosesau brys megis ymateb i dân neu gyflawni dyletswyddau wardeiniaid tân.

Pobl Fregus

Mae'n bosib y bydd busnesau'n cyflogi pobl fregus, neu mae'n bosib y bydd pobl fregus dan eu gofal. Mae'n bosib y gall effeithiau'r feirws ar weithdrefnau gwaith a'r staff sydd ar gael effeithio ar allu pobl fregus i ddianc mewn achos o dân.

Fe ddylai cyflogwyr barhau i gynnal ac adolygu Cynlluniau Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEPs) eu staff. Mae hyn yn hynod bwysig yn y sector gofal lle mae preswylwyr yn dibynnu ar staff i roi mesurau gadael ar waith. Ymhob achos, dylid adolygu gweithdrefnau fel eu bod yn adlewyrchu'r staff sydd ar gael yn gywir. Fe ddylai adolygiadau o'r fath gloriannu'r risgiau tân yn ofalus ynghyd â gallu busnesau o'r fath i weithredu'n ddiogel.

Newidiadau i Adeiladau

Er bod nifer o adeiladau yn cael eu troi'n safleoedd meddygol ar hyd a lled y wlad ar hyn o bryd, mae hyn fel arfer yn cyfeirio at ysbytai maes neu ehangu ystâd bresennol y GIG. Dylid edrych ar y cyfarwyddyd sydd eisoes ar gael ar y mater sydd ar gael [yma](#).

Fe all newidiadau eraill - megis cadw drysau tân ar agor i osgoi cyffwrdd mewn handlenni drysau neu selio drysau tân i atal aer rhag symud o un rhan o adeilad i'r llall effeithio ar fesurau diogelwch tân i amddiffyn rhag tân a darparu ffyrdd o ddianc.

Yn yr un modd, mae'n bosib y bydd safleoedd wedi codi parwydydd neu'n syml iawn wedi cloi drysau ac fe all hyn beryglu strategaeth tân bresennol yr adeilad.

Mae'n bosib y bydd rhai safleoedd wedi eu haddasu at ddibenion gwahanol. Er enghraifft

fe all warws gyda risg isel iawn ac ychydig o staff, nawr fod yn gwneud gwaith hanfodol i gynhyrchu eitemau meddygol neu becynnu parseli bwyd. Mae'n bosib y bydd hyn wedi digwydd yn gyflym ac nad oedd diogelwch tân yn flaenoriaeth. Fe all hyn gynyddu'r risg oherwydd natur y gwaith a gwblheir ar y safle, nifer y staff sydd yn bresennol a'r defnyddiau sydd eu hangen i hwyluso'r dasg.

Ym mhob achos, dylid adolygu'r Asesiad Risgiau Tân i weld faint o effaith y mae hyn wedi ei gael ar y risgiau a'r mesurau lliniaru sydd wedi eu rhoi ar waith. Hefyd mae gofynion y Rheoliadau Adeiladu'r un fath er gwaetha'r pandemig presennol ac felly mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw newidiadau'n bodloni'r gofynion ar gyfer diben y safle.

Dull a Chyfarwyddyd Pellach

Er bod nifer o fusnesau eisoes ar gau, mae nifer o safleoedd annomestig yn dal i weithredu er mwyn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Dylid ei gwneud yn glir nad ydi darpariaethau RR(FS)O 2005 wedi eu diddymu na'u llacio yn ystod y sefyllfa bresennol. Wrth gyflawni gweithgareddau rheoleiddio fe ddylai GTAau ddefnyddio dull yn seiliedig ar risg. Argymhellir bod GTAau yn ymgysylltu gyda busnesau cyn gynted â phosibl i gynnig cyngor ac osgoi gorfod cymryd camau mwy ffurfiol yn hwyrach ymlaen. Mae gwybodaeth mwy penodol ar gael yn y ddogfen NFCC Amddiffyn - Bwriad Strategol sydd ar gael drwy'r ddolen ar waelod y dudalen hon.

Argymhellir eich bod chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo negeseuon i'r gymuned fusnes y ogystal â diweddarau'ch gwefan. Mae'r NFCC wedi cynhyrchu dogfen Cwestiynau Cyffredin yn ogystal i fynd i'r afael ag ymholiadau y mae GTAau wedi eu derbyn gan fusnesau a'r rhai sydd yn cael eu rheoleiddio gan RR(FS)O 2005. Mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau ac atebion syml i'ch helpu chi i lunio unrhyw gyngor pellach ac mae ar gael isod.

Mae'r cyfarwyddyd ychwanegol gan yr NFCC ynghylch gweithgareddau Amddiffyn yn ystod y pandemig COVID ar gael [yma](#).



COVID-19 - Amddiffyn - Dogfen Cwestiynau Cyffredin ar Ddiogelwch Tân i Fusnesau

9 Ebrill 2020 – Rhif 1

Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth isod mewn ymateb i gwestiynau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub wedi eu derbyn mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol gyda COVID-19, ac fe'i darperir er mwyn ceisio cynnig cyfarwyddyd, cefnogaeth a chysondeb o ran ymateb.

Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y ddogfen wedi ei ddarparu dros dro mewn ymateb i sefyllfa'r sefyllfa ddeinamig bresennol gyda COVID-19 ac mae'n cydfynd gyda chynghor a chyfyngiadau cyfredol y Llywodraeth mewn perthynas â COVID-19. Byddwn yn ymdrechu i ddiweddarau'r ddogfen yn wythnosol. Cyfeiriwch at gyfarwyddyd y Llywodraeth ar Wefan COVID-19:

<https://www.gov.uk/coronavirus>

Cyfarwyddyd cyffredinol ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

C. Ydi'r gyfraith diogelwch tân y berthnasol yn sgil y sefyllfa bresennol gyda Covid-19?

A. Ydi, mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (RR(FS)O 2005) yn berthnasol o hyd. Mae dyletswydd ar y Person Cyfrifol yn ôl y diffiniad yn erthygl 3 yn RR(FS) O 2005 (gweler cwestiwn isod) i sicrhau bod risgiau tân yn cael eu nodi a bod mesurau addas yn cael eu rhoi ar waith, dylid eu cofnodi yn yr asesiad risgiau tân.

Mae RR(FS)O 2005 yn berthnasol ar gyfer amddiffyn bywydau ac nid eiddo, er y bydd yn sicrhau buddion o safbwynt amddiffyn adeiladau. Rhaid sicrhau bod mesurau diogelwch tân i amddiffyn pobl yn y safle, neu yng nghyffiniau'r safle, yn cael eu cynnal mewn cyflwr gweithredol da (ceir cynghor ar gynnal a chadw isod).

Os nad ydi RR(FS)O 2005 yn berthnasol bydd y ddeddfwriaeth diogelwch tân priodol yn dal i fod yn weithredol gan nad ydi'r ddeddfwriaeth diogelwch tân wedi ei llacio ar hyn o bryd.

C. Mae fy rheolwr a fy Ngoruchwyliwr yn hunanynysu ar hyn o bryd a nhw sydd fel arfer yn delio gyda diogelwch tân, beth ddylwn i wneud?

A. Y Person Cyfrifol sydd yn gyfrifol am sicrhau bod digon o staff wedi eu hyfforddi i'w helpu i reoli diogelwch tân.

Mae'r Person Cyfrifol yn ôl y diffiniad yn Erthygl RR(FS)O 2005 yn hierarchaeth lle mai'r Person Cyfrifol ydi:

1. Y cyflogwr.
2. Os nad oes cyflogwr y person sydd gan reolaeth dros y safle.
3. Y perchennog.

Fe ddylech chi gysylltu gyda'ch Rheolwr a/neu Oruchwyliwr, gan gadw at ganllawiau'r Llywodraeth, i gael cyngor ac fe ddylai fod gan y safle asesiad risgiau tân a fydd o gymorth. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth fe ddylech chi gael cyngor gan aseswr risgiau tân cymwys. Ceir cyngor ar ddewis aseswr [yma](#).

C. Fydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymweld â'r safle yn ôl yr arfer?

A. Yn ystod y cyfnod presennol mae'r GTA yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar gyfyngu cyswllt dianghenraid ac o'r herwydd bydd yn cadw at ddull o reoleiddio yn seiliedig ar risg wth gynnal ei weithgareddau Amddiffyn (diogelwch tân) gan ganolbwyntio ei adnoddau ar y safleoedd hynny sydd â'r risg mwyaf.

C. Fydd y gwasanaeth tân yn ymweld â'm safle i mi gael gwybod a ydi fy safle yn ddiogel i'w ddefnyddio o hyd?

A. Na, oni bai eich bod chi wedi darganfod risg sylweddol. Fel Person Cyfrifol, mae dyletswydd arnoch chi i sicrhau eich bod chi'n adnabod y risgiau tân a/neu geisio cyngor gan aseswr risgiau tân cymwys. Cewch gysylltu gyda'ch GTA lleol am gyngor diogelwch tân cyffredinol a cheisio cyngor gan aseswr risgiau tân cymwys fel yr uchod.

C. Ydi'r hysbysiad cyfreithiol a dderbynais gan fy ngwasanaeth tân ac achub lleol yn dal i fod yn ddilys.

A. Ydi, nid yw'r sefyllfa bresennol gyda'r argyfwng COVID-19 wedi newid statws unrhyw hysbysiadau a gyhoeddwyd o dan RR(FS)O 2005. Fe ddylech chi gysylltu gyda'r GTA a gyhoeddodd yr hysbysiad os hoffech gyngor a chyfarwyddyd bellach.

C. Beth fydd yn digwydd os na allaf i gwblhau'r gwaith cyn i'r hysbysiad ddod i ben?

A. Cysylltwch â'ch GTA lleol a fydd yn eich cynghori.

C. Fydd gwasanaethau yn dal i ddod i wirio fy mod wedi cydymffurfio gyda fy hysbysiad?

A. Bydd gwasanaethau tân yn dal i archwilio, ond bydd hyn yn digwydd ar sail risg gan ddiwynnu ar yr amgylchiadau unigol.

Dulliau Dianc

C. A gaf i gloi allanfeydd tân nad ydw i'n eu defnyddio mwyach er mwyn diogelu'r safle, gan fod llai o bobl ar y safle a chan nad ydynt yn defnyddio'r safle cyfan?

A. Rhaid cael nifer ddigonol o allanfeydd tân ar gyfer nifer y bobl ar y safle ac mae'n rhaid iddynt allu cael eu hagog yn syth heb orfod defnyddio allwedd neu gòd. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr nad oes rhaid i ddeiliaid gerdded yn rhy bell na cherdded trwy ardal gyda risg uchel o dân neu fynd tuag at dân i ddianc.

Dylid cefnogi hyn gydag arwyddion priodol i ddangos ble mae'r allanfeydd y dylid eu defnyddio mewn achos o dân, gan rannu unrhyw newidiadau gyda'r holl ddeiliaid mewn fformat sydd yn ddealladwy iddynt. Fe ddylech chi asesu hyn ar gyfer y ddeiliadaeth bresennol gan ddefnyddio'ch asesiad risgiau tân a gwneud cofnod ynddo. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, ceisiwch gyngor gan berson cymwys.

C. Beth ddylwn i wneud os ydi fy llwybr dianc yn mynd drwy'r adeilad drws nesaf sydd nawr ar gau?

A. Rhaid i chi asesu a gwerthuso'r effaith y mae hyn am gael ar eich gallu i adael eich safle mewn achos o dân ac unrhyw lwybrau dianc eraill sydd ar gael. Os ydi hi'n ddiogel gwneud hynny ac os ydi hynny yn unol â chanllawiau'r llywodraeth fe ddylech gydylynu gyda'r Person Cyfrifol ar gyfer y safle i weld a oes modd dod i gytundeb. Dylech gofnodi hyn yn eich asesiad risgiau tân, ac os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, ceisiwch gyngor gan berson cymwys.

C. Beth ddylwn i wneud os ydi fy safle yn adeilad amlfeddiannaeth a bod rhai busnesau wedi gorfod cau?

A. Rhaid i chi asesu a gwerthuso'r effaith y mae hyn yn mynd i'w gael ar eich mesurau diogelwch tân. Argymhellir yn gryf eich bod chi'n gwneud hynny ar y cyd â'r perchnogion eraill a'r cwmni rheoli ar gyfer y safle, i asesu'r risg a chofnodi'ch canfyddiadau yn eich asesiad risgiau tân. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, ceisiwch gyngor gan berson cymwys.

C. Gawn ni gadw drysau tân ar agor i atal pobl rhag cyffwrdd handlenni drysau?

A. Na, mae drysau tân yn fesur diogelwch tân pwysig, cadwch ddrysau tân ar gau a dilynwch gyfarwyddyd y llywodraeth ar olchi dwylo a glanhau arwynebeddau caled.

Mae modd cadw drysau tân ar agor gyda dyfeisiadau dal ar agor rhyddhau awtomatig sydd wedi cael eu dylunio'n benodol a'u gosod i'r diben hwn.

Gwagio'r Adeilad

C. Ddylwn i barhau i gynnal ymarferion tân yn fy safle masnachol?

A. Mae ymarferion tân yn rhan bwysig o unrhyw weithdrefnau ar gyfer gwagio adeiladau yn llwyddiannus mewn argyfwng. Mae'n hanfodol bwysig bod pawb yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o dân.

Rhaid i chi asesu'r sefyllfa bresennol gan ystyried pa mor gyfarwydd ydi'r deiliaid â'r weithdrefn a'r ymarfer tân diweddaraf. Os oes angen a chan ddibynnu ar eich safle, fe allwch chi gyfarwyddo deiliaid newydd gyda'r safle ac fe allwch chi wneud hyn trwy ymarfer pen bwrdd. Mae hyn yn bwysig pan fydd staff wedi bod yn gweithio ar safle arall yn flaenorol.

Y mae hefyd yn hynod bwysig ystyried Cynlluniau Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEPs) a sut y gellir eu rheoli a'u cefnogi fel rhan o'ch Gweithdrefnau Gadael Mewn Argyfwng cyffredinol ac asesiad risgiau tân.

C. A ddylai staff adael y safle pan fydd y larwm yn seinio neu a fydd hyn yn effeithio ar gadw pellter cymdeithasol?

A. Mae'n hanfodol bod pawb yn gadael y safle ac yn mynd i'r man ymgynnull (gweler isod) mewn achos o dân er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel. Er y gall hyn effeithio

ar gadw pellter cymdeithasol wrth adael, mae modd rheoli hyn trwy ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar sicrhau hylendid yn y Man Ymgynnull.

C. Sut ydw i'n cadw pellter cymdeithasol yn y Man Ymgynnull?

A. Rhaid i chi adolygu a diwygio eich cynllun argyfwng cyfredol a'ch darpariaeth Marsialiaid Tân, yn cynnwys y Man Ymgynnull, gan ystyried nifer y deiliaid a sicrhau bod pawb yn derbyn cyfarwyddiadau diwygiedig ac yn gwybod beth i'w wneud.

C. Beth ddylwn i wneud gan fy mod yn dibynnu ar staff i adael yr adeilad ac mae nifer ohonynt yn sâl neu'n hunanynysu?

A. Rhaid i chi nodi'ch lefelau staffio presennol ar unwaith wrth adolygu'ch asesiad risgiau tân, a nodi pa effaith y gall hyn ei gael ar y defnydd a wneir o'ch safle, diogelwch y staff sydd yn dal i weithio yno a'ch gweithdrefnau ar gyfer gadael mewn argyfwng. Dylech ystyried PEEPs a'r bobl fwyaf bregus yn benodol. Dylech ystyried, lle bo hynny'n ymarferol, symud deiliad ar y safle i leihau'r ardaloedd a ddefnyddir, ac edrych ar bob opsiwn i wneud yn siŵr bod digon o staff at gael. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, ceisiwch gyngor gan berson cymwys a chysylltwch â'ch GTA lleol.

Hyfforddiant

C. Oes raid i mi ddarparu hyfforddiant diogelwch tân?

A. Oes, mae'n bwysig bod staff a phawb sydd yn gweithio ar y safle e.e. gweithwyr cynnal a chadw, yn derbyn hyfforddiant diogelwch tân perthnasol ar gyfer eu rôl, cyfrifoldebau ac anghenion. Fe ddylech chi adolygu faint o hyfforddiant y mae pob unigolyn wedi ei dderbyn a diweddarau'r hyfforddiant os oes angen, mae hyn yn hanfodol ar gyfer deiliaid sydd yn anghyfarwydd â'r safle.

C. Beth ddylwn i wneud os ydi fy nhîm glanhau a chynnal a chadw'n newid a'u bod yn anghyfarwydd gyda'r trefniadau diogelwch tân ar gyfer y safle?

A. Rhaid i bawb sydd yn gweithio ar y safle fod yn gyfarwydd gyda'r safle a derbyn gwybodaeth am y trefniadau a'r risgiau penodol y gallant ddod i gysylltiad â hwy a beth sydd yn ddisgwyliedig ohonynt mewn achos o dân.

Q. Gyda llai o staff nid oes gennyf ddigon o bersonél sydd wedi eu hyfforddi i ddefnyddio offer diffodd tân. Oes modd i unrhyw un eu defnyddio?

A. Os oes rhaid i bobl ddefnyddio offer diffodd tân i leihau'r risg o dân neu i ddiogelu llwybrau dianc mae'n bwysig eu bod wedi cael eu hyfforddi i wneud hynny, fe ddylent:

- Wybod sut i'w defnyddio
- Ddeall pa offer y dylid ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol fathau o danau
- Fod yn ymwybodol o leoliad yr offer diffodd tân.

Hefyd:

- Dylid cadw offer diffodd tân yn lân i atal traws-halogiad.
- Ni ddylid cyflawni prosesau lle mae'n ofynnol defnyddio offer diffodd tân fel rhan o weithdrefnau e.e. Gwaith Poeth (oni bai fod y gwaith yn cael ei gwblhau gan bobl gymwys sydd yn gyfarwydd â'r holl brosesau gan gynnwys ymateb i dân).
- Dylid cynnal a chadw offer diffodd tân yn rheolaidd

Profi a Chynnal a Chadw

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 23 Mawrth 2020, mae'n hanfodol bod pobl sydd yn byw a gweithio yn yr amgylchedd adeiledig yn ddiogel, ac yn cael eu cadw'n ddiogel, er gwaetha'r cyfyngiadau symud presennol oherwydd COVID-19. Ar hyn o bryd nid yw'r ddeddfwriaeth diogelwch tân wedi cael ei llacio ac mae dyletswydd ar y person cyfrifol a/neu'r Daliwr Dyletswydd i wneud yn siŵr eu bod yn profi a chynnal a chadw'r holl fesurau

diogelwch tân i wneud yn siŵr bod y safle'n dal i fod yn ddiogel.

Mae'r NFCC o'r farn y dylid ystyried pobl yn weithwyr allweddol o dan ddarpariaethau canllawiau Llywodraeth Ei Mawrhydi, os ydynt yn gweithio ar fesurau diogelwch tân hanfodol megis gosod a chynnal a chadw mesurau diogelwch tân, gan eu bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus allweddol ac yn gwneud gwaith hanfodol i gadw safleoedd yn ddiogel. Mae'n rhaid iddynt hefyd gadw eu hunain yn ddiogel wrth wneud y gweithgareddau hanfodol hyn trwy ddilyn cyngor diweddaraf y Llywodraeth sydd ar gael [yma](#).

Os ydi safle'n wag a chan bod a wnelo RR(FS)O 2005 â diogelu bywydau yn unig, mae'n bosib na fydd angen cynnal a chadw systemau diogelwch tân sydd yn eu lle i ddiogelu bywydau. Os nad oes neb yn y cyffiniau e.e. mewn llety uwch ben y safle, sydd yn ddbynnol ar y mesurau diogelwch tân yna mae RR(FS)O 2005 yn caniatáu defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer profi a chynnal a chadw mewn safleoedd gwag. Os oes gennych unrhyw amheuaeth fe ddylech ofyn am gyngor gan berson cymwys.

Fodd bynnag, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n trefnu i berson cymwys wirio unrhyw fesurau diogelwch tân sydd ar waith i amddiffyn bywydau cyn gynted â phosibl wedi i'r safle ailagor, a gwneud yn siŵr bod popeth wedi cael ei brofi cyn i unrhyw un ddechrau defnyddio'r safle yn enwedig safleoedd gyda risg i bobl sydd yn cysgu ynddynt.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch diben unrhyw system ddiogelwch tân na fydd yn cael ei chynnal a'i chadw, rhaid i chi ofyn am gyngor gan berson cymwys a/ neu eich GTA lleol.

Am gyngor a chyfarwyddyd ar gynnal mesurau diogelwch tân cyfeiriwch at yr isod:

- [Cymdeithas y Diwydiant Tân - diweddiariad COVID-19 yn berthnasol i'r diwydiant tân](#)
- [Cymdeithas Systemau Chwistrellu Awtomatig Prydain](#)
- [Y Sefydliad Rheoli Gweithleoedd a Chyfleusterau](#)
- Cymdeithas Gwasanaethau Peirianeg Adeiladau:
 - » [Cefnogaeth ac Arweiniad ar COVID-19](#)
 - » [COVID 19 – Cynnal a Chadw Adeiladau SFG20, SFG 30 Cau ac Ailagor](#)

C. Oes rhaid i mi barhau i gynnal a chadw fy mesurau diogelwch tân (larwm tân, goleuadau argyfwng, offer diffodd tân)?

A. Os ydi'ch busnes yn dal i fod ar agor ac yn weithredol yna mae'n hanfodol eich bod chi'n dal i brofi a chynnal a chadw eich mesurau diogelwch tân yn rheolaidd i wneud yn siŵr y gwnânt weithredu fel ac y dylent mewn achos o dân.

C. Oes raid i mi barhau i brofi fy larwm tân?

A. yn achos busnesau sydd yn dal i fod ar agor ac yn weithredol, mae'n hanfodol parhau i brofi a chynnal a chadw'r holl fesurau diogelwch tân i gadw pobl yn ddiogel a gwneud yn siŵr r y gwnânt weithredu fel ac y dylent mewn achos o dân.

C. Mae fy musnes i ar gau ar y funud, os ydw i'n ddeiliad allweddi ydw i'n cael mynd i'r adeilad os caf fy rhybuddion gan Ganolfan Derbyn Larymau neu'r Gwasanaeth Tân ac Achub bod y larwm yn seinio?

A. Fe ddylech chi wneud pob ymdrech i fynd i'r adeilad gan lynu wrth gyngor y Llywodraeth orau medrwyd. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau rheng flaen hanfodol y GTA o'r safle a lleihau'r tebygolrwydd o alwadau i'r GTA yn ystod y cyfnod heriol hwn. Ar ôl cyrraedd y safle fe ddylech chi gadw'ch hun yn ddiogel ac os oes arwyddion o dân fe ddylech adael yr adeilad ar unwaith a ffonio 999.

Atal Tanau a Rheoli Risg

C. Beth alla i wneud i leihau'r risg o dân hyd yn oed yn fwy ar fy safle?

A. Ochr yn ochr â'ch mesurau atal tân arferol ystyriwch:

- Atal unrhyw waith poeth oni bai bod hynny'n angenrheidiol. Os oes raid, sicrhewch fod y gwaith yn cael ei gwblhau gan berson cymwys a bod asesiad risg addas a digonol wedi ei gwblhau ynghyd ag archwiliadau priodol ar ôl gorffen y gwaith.
- Ar gyfer safleoedd gwag neu rannol wag, gwnewch yn siŵr bod yr holl gyfarpar trydan wedi eu diffodd a bod plygiau wedi eu tynnu o socedi os yn bosibl
- Cadwch stoc neu wastraff sydd wedi casglu ymhell o'r adeilad a diogelwch fynediad i'r safleoedd hyn i leihau'r perygl o losgi bwriadol.

C. Gan fod rhai casgliadau gwastraff wedi ei gohirio beth ddylwn i wneud?

A. Ystyriwch yr amhariad ar gasgliadau gwastraff a sbwriel a cheisiwch leihau faint o wastraff a sbwriel yr ydych chi'n ei gasglu cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, gan wneud yn siŵr nad yw'n blocio llwybrau dianc a'i fod yn cael eu storio ymhell o'r safle. Fe ddylech ystyried hyn wrth adolygu'ch asesiad risgiau tân ac ystyried y risg o losgi bwriadol (gweler isod).

C. Beth all i wneud i amddiffyn pobl sydd yn gweithio gartref?

A. Ar gyfer gweithwyr sydd yn gweithio gartref, anogwch hwy i:

- Gymryd amser i wirio eu trefniadau diogelwch tân yn y cartref, a gwneud yn siŵr bod ganddynt larymau mwg, eu bod yn eu profi a'u bod yn gweithio'n iawn.
- Defnyddio eitemau trydanol yn ddiogel e.e. peidio â chamddefnyddio lidiau estyn trwy blygio lid estyn i mewn i lid estyn arall.
- Gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r teulu yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o dân yn enwedig pobl hŷn a phlant.
- Gwiriadau gyda'r nos - cau drysau, tynnu plygiau cyfarpar trydanol a theclynnau gwerfu, gwirio bod gwresogyddion wedi eu diffodd, a gwirio bod canhwyllau a sigarêts wedi eu diffodd yn llwyr.
- Atgoffa pawb os oes tân i Fynd Allan, Aros Allan a Galw'r Gwasanaeth Tân Allan trwy ffonio 999.

Am gyngor pellach ar ddiogelwch yn y cartref:

- [Ymgyrch 'Mae Tân yn Lladd' y Llywodraeth](#)
- Gwefan eich GTA lleol.

C. Gyda chasgliadau gwastraff gardd a rhai canolfannau ailgylchu ar gau ydi hi'n iawn llosgi sbwriel yn fy ngardd/iard?

A. Rydym ni'n annog pawb i ystyried a oes gwir angen llosgi sbwriel neu wastraff gardd. Er bod y GTA yn dal i ymateb i alwadau brys, fe all ymateb i goelcerthi sydd wedi mynd allan o reolaeth roi pwysau diangen ar y GTA yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn. Dylech ddilyn y rheolau syml isod os ydych chi'n cynnau coelcerth:

- Yn gyntaf, a oes wir angen?
- Os oes, yna dylid gosod y goelcerth ymhell o adeiladau, ffensys, coed ac adeiladau neu strwythurau gardd.
- Os yn bosibl, dylid llosgi gwastraff gardd mewn llosgwr gardd.

- PEIDIWCH â defnyddio hylifau fflamadwy i gynnu'r goelcerth
- Rhaid cadw llygaid ar y goelcerth bob amser.
- Rhaid cael rhywbeth a all reoli'r goelcerth wrth law e.e. pibell ddŵr.
- Dylech wirio deddfau/is-ddeddfau lleol i wneud yn siŵr eich bod chi'n cydymffurfio.

Am gyngor pellach ar reoli risg:

Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig wedi dewis y safonau mwyaf perthnasol ar gyfer meysydd allweddol megis offer gwarchod personol (PPE) a pharhad busnes a rheoli risg ac maent ar gael yn rhad ac am ddim [yma](#).

Cyngor ar Losgi Bwriadol

Mae'r Gymdeithas Atal Tanau wedi cynhyrchu cyfarwyddyd rhad ac am ddim:

- [Cyngor ar ddiogelu ac amddiffyn rhag llosgi bwriadol i berchnogion adeiladau a busnesau ac yswirwyr - cyfarwyddyd rhad ac am ddim i reoli'r risg yn ystod yr argyfwng COVID-19](#)

Amrywiol

C. Beth ddylwn i wneud os ydi gwaith ailwampio sydd yn effeithio ar fesurau diogelwch tân y safle yn dod i ben (ar fin dod i ben) oherwydd bod y cwmni adeiladu wedi (neu ar fin) cau dros dro?

A. Rhaid i chi asesu'r risgiau i ddeiliaid o ganlyniad i'r newidiadau hyn a gofyn i'r contractwr adael y safle mewn cyflwr diogel. Rhaid adolygu a diwygio asesiad risgiau tân y safle i ystyried yr amgylchiadau e.e. newidiadau i'r systemau synhwyro neu larymau tân, dulliau dianc, gweithdrefnau brys, ac os oes gennych unrhyw amheuaeth ceisiwch gyngor gan berson cymwys.

Ceir gwybodaeth bellach ar safleoedd adeiladu yma:

- Y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladwaith:
 - » [Diogelu safleoedd yn ystod Covid-19](#)
 - » [Cyngor ar gau safleoedd dros dro](#)

i Diben y cyfarwyddyd anstatudol hwn ydi darparu cyngor cyffredinol i wasanaethau tân ac achub a Phobl Gyfrifol i'w helpu i sicrhau dull cyson, safonol. Nid dogfen gyfreithiol mo hon. Mae dyletswyddau cyfreithiol y Personau Cyfrifol wedi eu nodi o hyd yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae dyletswyddau cyfreithiol y gwasanaethau tân ac achub wedi eu nodi yn y ddeddfwriaeth, yn benodol erthygl 26 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, ac ni fyddant yn newid yn ystod y pandemig COVID-19, ond os caiff unrhyw wasanaeth tân ac achub anawsterau wrth gydymffurfio gyda'r dyletswyddau hynny, dylent geisio cyngor cyfreithiol.